

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r papur ymgynghori hwn yn pennu cynigion i ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Cynllun ffioedd yw'r AGFS, lle mae adfocadau'r amddiffyniad yn cael eu talu am gyflawni gwaith a ariennir gan arian cyhoeddus yn Llys y Goron.
2. Roedd y cynllun diwygiedig bu inni roi ar waith ym mis Ebrill yn benllanw dros ddwy flynedd o gydweithio agos rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r proffesiwn adfocadau troseddol i ddatblygu dull tecach, symlach a mwy modern i dalu adfocadau'r amddiffyniad yn Llys y Goron trwy gymorth cyfreithiol.
3. Roedd y Llywodraeth yn cytuno â nifer yn y proffesiwn bod angen diwygio'r cynllun oedd mewn lle cyn mis Ebrill 2018. Roedd yn dibynnu'n ormodol ar hen brocsïaid fel Tudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad i bennu cymhlethdod achos, a oedd yn golygu nad oedd taliadau yn adlewyrchu'r gwaith y disgwyliwyd i'r adfocadau ei gyflawni. Roedd yn gymhleth heb fod angen, a hynny ar gyfer yr adfocadau a'r gweinyddwyr. Roedd yn aml yn aneglur i adfocad pan oedd yn cytuno i weithredu mewn achos beth yn union byddai'r ffi am yr achos. Hefyd, nid oedd yn cyd-fynd â'r broses ddiwygio ehangach sy'n trawsnewid y ffordd mae ein llysoedd troseddol yn gweithredu.
4. Ar y sail hon, cafodd y broses o ailgynllunio'r ADFS ei llywio gan egwyddorion penodol. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, dibynnu llai ar Dudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad fel procsi ar gyfer cymhlethdod, gan wobrwyo'r gwaith a wneir gan adfocadau mewn ffordd decach, lleihau biwrocratiaeth, cynyddu sicrwydd costau i adfocadau, ac ategu'r broses ddiwygio ehangach.
5. I fodloni'r egwyddorion hyn, bu inni roi nifer o newidiadau strwythurol ar waith yn y cynllun. Bu inni gyflwyno fformiwla fodern a symlach i gyfrifo ffioedd, sy'n dibynnu llawer llai ar Dudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad. Cefnogwyd hyn trwy gyflwyno system categoreiddio troseddau newydd, soffistigedig, sy'n adeiladu cysylltiadau rhwng troseddau yn seiliedig ar eu cymhlethdod. Bu inni "ddadfwndelu" y ffi raddedig, gan dalu ar wahân am lawer o daliadau oedd mewn "bwndel" yn flaenorol. Rydym hefyd wedi rhoi pwyslais cryfach ar eiriolaeth yn y llys wrth bennu ffioedd adfocadau.
6. Roedd y diwygiadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Er ein bod wedi gwrandao ar bryderon ynghylch elfennau o'r cynllun, ac roeddem wedi ymateb yn gadarnhaol i lawer ohonynt, roedd yr ymgynghoreion yn gyffredinol o blaid y strwythur newydd. Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod o'r farn bod y strwythur hwn yn synhwyrol, yn ddealladwy, ac yn llawer gwell na'r strwythur blaenorol, ac y dylai ffurfio'r sail ar gyfer taliadau yn y dyfodol.
7. Fodd bynnag, er ein bod yn parhau i fod wedi ymrwymo i strwythur y cynllun newydd, rydym yn gwerthfawrogi bydd angen ailystyried y ffioedd o fewn yr AGFS. Ers i ni gyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad, mae ymarferwyr ar draws y proffesiwn wedi mynegi pryderon bod y ffioedd yn rhy isel ac nid ydynt yn adlewyrchu'n briodol y gwaith a wneir. Arweiniodd y pryderon hyn at lawer o fargyfreithwyr, a rhai cyfreithwyr sy'n gweithredu fel adfocadau, yn gwrthod derbyn cyfarwyddiadau am waith amddiffyn troseddol a ariennir gan arian cyhoeddus.
8. Rydym wedi siarad llawer gydag ymarferwyr a chynrychiolwyr y proffesiwn i ddeall y pryderon hyn yn well. Mae'r pryderon wedi canolbwyntio ar lefel y ffioedd yng nghyswllt:

- ffioedd ar gyfer y categorïau troseddau penodol a ganlyn - troseddau rhywiol sy'n ymwneud â phlant (categori 4), troseddau anonestrwydd (categori 6), a throseddau cyffuriau (categori 9);
 - ffioedd i is-adfocadau, rhai cyflogedig a rhai hunangyflogedig; a
 - ffioedd yn fwy cyffredinol, gyda'r adfocadau yn nodi'n benodol eu bod eisiau cynyddiadau yn y dyfodol.
9. O'r cychwyn cyntaf, un o egwyddorion y cynllun diwygiedig oedd adlewyrchu, a thalu am, y gwaith a wneir. Ar ôl ystyried yn ofalus y pryderon nad yw'r AGFS yn cyflawni'r nod hwn, rydym yn cydnabod y dylid cynyddu'r ffioedd o fewn y cynllun. O ganlyniad, rydym yn cynnig buddsoddi £15m ychwanegol yn yr AGFS i fynd i'r afael â'r pryderon uchod. Mae ein cynigion ar gyfer buddsoddi'r gwariant ychwanegol hwn wedi'u crynhoi isod, a manylir arnynt yn y papur ymgynghori hwn.
10. Ar gyfer troseddau rhywiol sy'n ymwneud â phlant (categori 4), rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl:
- ym mand 4.2, cynyddu'r ffi 10% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £1,400 i £1,550); ac
 - ym mand 4.3, cynyddu'r ffi 50% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £1,000 i £1,500); ac
11. Ar gyfer troseddau anonestrwydd (categori 6), rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl:
- ym mand 6.1, cynyddu'r ffi oddeutu 5% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £12,000 i £12,675); ac
 - ym mand 6.2 cynyddu'r ffi ychydig dros 50% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £7,500 i £11,440); ac
 - ym mand 6.3 cynyddu'r ffi oddeutu 40% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £2,000 i £2,825); ac
12. Ar gyfer troseddau cyffuriau (categori 9), rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl:
- ym mand 9.1 cynyddu'r ffi ychydig dros 15% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £7,500 i £8,700); ac
 - ym mand 9.4 cynyddu'r ffi ychydig dros 30% (gan olygu, er enghraifft, y byddai'r ffi treial sylfaenol ar gyfer is-adfocad yn cynyddu o £2,000 i £2,625);
13. Ar gyfer is-adfocadau, gan gynnwys is-adfocadau y bar ac adfocadau sy'n gyfreithwyr, rydym yn cynnig:
- cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog a threialon chwâl mewn achosion safonol (band 17.1) bron 20% a chnyddu'r ffi adnewyddu ddyddiol mwy na 15%;

- cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog a threialon chwâl mewn ystod o fandiau troseddau eraill, gan gynnwys y bandiau anonestrwydd (categori 6), byrgleriaeth a lladrad (categori 11), arf tanio (categori 12), troseddau eraill yn erbyn unigolyn (categori 13), ecsploetiaeth a masnachu mewn pobl (categori 14) a throseddau trefn gyhoeddus (categori 15);
- symud nifer o droseddau (llochesu carcharor sydd wedi dianc, aflonyddu ar dystion, rheithwyr ac unigolion eraill, a chynorthwyo troseddwyr) o'r band achosion safonol yn 17.1, a'u rhoi yn y band er budd y cyhoedd yn 8.1, a byddai'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog a threialon chwâl yn y bandiau hyn yn cynyddu dros 100% o ganlyniad i hyn;
- cynyddu'r ffi ar gyfer dyddiau treial aneffeithlon o £300 i £500, sy'n gynydd o dros 15%; a
- cynyddu'r ffioedd ar gyfer apeliadau yn erbyn euogfarn 20% (a fyddai'n golygu, er enghraifft, cynnydd o £250 i £300 ar gyfer is-adfocad).

14. Ac yn olaf, rydym yn cynnig cynnydd o 1% i'r holl ffioedd ar gyfer achosion sydd â Gorchymyn Cynrychiolaeth a roddwyd ar, neu ar ôl 1 Ebrill 2019.

15. Yn dilyn proses ymgynghori, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion. Bydd unrhyw newidiadau i'r cynllun yn cael eu gweithredu trwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r broses ar gyfer hyn yn cychwyn gyda chreu a chyflwyno Offeryn Statudol yn y Senedd. Bydd yr Offeryn Statudol hwn yn nodi'r dyddiadau perthnasol pan fydd y newidiadau yn dod i rym. Bydd y cynnydd mewn ffioedd yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch cymorth cyfreithiol mewn achosion troseddol a wneir ar ôl y dyddiad bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym.